

Gweithdrefn ar gyfer cymeradwyo rhaglenni, modiwlau, a darpariaethau eraill sy'n dwyn credydau

Tabl Rheoli'r Ddogfen			
Teitl y Ddogfen:	Gweithdrefn ar gyfer cymeradwyo rhaglenni, modiwlau, a darpariaethau eraill sy'n dwyn credydau.		
Ysgrifennwyd/Cynhelir gan (Enw Tîm/Adran):	Ansawdd a Safonau Academaidd		
Rhif y Fersiwn:	Fersiwn 3		
Statws y Ddogfen:	Ar gael		
Dyddiad cymeradwyo:			
Cymeradwywyd gan:	Y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd		
Dyddiad Dod i Rym:	1 Awst 2024		
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:	Mai 2025		
Y Fersiwn a ddisodlwyd:	Gweithdrefn Cymeradwyo Rhaglenni		
Hanes y Ddogfen			
Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Nodiadau ar Ddiwygiadau
F1	17 Mai 2022	Martine Woodward	Mae'r Polisi Datblygu Rhaglenni wedi'i ddisodli gan weithdrefn cymeradwyo rhaglenni'n unig. Mae'r elfen ddatblygu wedi'i hymgorffori yn y Disgwyliadau Sefydliadol ar gyfer strwythur, dylunio a chyflwyno rhaglenni. (Cofnod 1380.2)
F2	3ydd o Orffennaf 2023	Martine Woodward	Roedd cyflwyno Polisi Partneriaeth Addysg newydd (yn lle'r ddarpariaeth Gydweithredol, astudio dramor, a pholisïau dysgu ar leoliad) yn gofyn am ddiweddariad i'r weithdrefn. Rhan 4: Mae rôl y Bwrdd Astudiaethau wedi'i ddileu gan fod hyn wedi'i gynnwys mewn cyngor

			ac arweiniad ar rwydwaith Ansawdd a Safonau Academaidd y Brifysgol . (1511.1)
F3	8fed o Orffennaf 2024	Martine Woodward Lois Price	<p>Ail-enwi'r weithdrefn i gynnwys cymeradwyo rhaglenni, modiwlau, a darpariaethau eraill sy'n dwyn credydau.</p> <p>Dileu Cymeradwyaeth Strategol Cam 1 yn y Coleg a RASG. Disodli gyda Phroses Cynllunio Integredig y Brifysgol a reolir gan Gynllunio Strategol.</p> <p>Ychwanegu adran ar gymorth datblygu rhaglenni sefydliadol i sicrhau bod cynigion a argymhellir drwy'r broses gymeradwyo strategol yn cael eu datblygu yn unol â'r amserlen; yn cael cymorth priodol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm; yn barod i'w gweithredu a'u marchnata ar ôl eu cymeradwyo.</p> <p>Diweddaru'r adran ar newidiadau i'r rhaglen bresennol i gynnwys newidiadau dros y trothwy fel yr amlinellwyd yn y broses cadarnhau gwybodaeth am y rhaglen a gymeradwyir yn flynyddol gan ASQC (Cofnod 1361.7)</p> <p>Cynnwys y drefn ar gyfer cymeradwyo modiwlau a darpariaethau eraill sy'n dwyn credydau.</p>

CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD

**Gweithdrefn ar gyfer
cymeradwyo rhaglenni,
modiwlau, a darpariaethau
eraill sy'n dwyn credydau**

Tabl Cynnwys

Institutional oversight	Error! Bookmark not defined.
Part One: Approving programmes leading to a Cardiff University Award.....	Error! Bookmark not defined.
Strategic approval	Error! Bookmark not defined.
Institutional programme development support.....	Error! Bookmark not defined.
Part Two: Making routine changes to existing programmes	Error! Bookmark not defined.
Confirming Programme Information	Error! Bookmark not defined.
Approving routine changes via your Board of Studies	Error! Bookmark not defined.
Changes over the threshold.....	Error! Bookmark not defined.
Adding a Year of Study Abroad to an existing programme	Error! Bookmark not defined.
Requesting a change to a programme title	Error! Bookmark not defined.
Part Three: Modules and other credit bearing provision. .	Error! Bookmark not defined.
Non-degree 'programmes'	Error! Bookmark not defined.
Categories of 'non-degree' provision.	Error! Bookmark not defined.
Visiting and occasional studies	Error! Bookmark not defined.
Standalone modules and short term externally funded tenders	Error! Bookmark not defined.
Incoming study abroad and international exchange students	Error! Bookmark not defined.
Postgraduate taught credit accumulation.....	Error! Bookmark not defined.
Achieving a Cardiff University Award via credit accumulation.....	Error! Bookmark not defined.
English Language Provision Programmes	Error! Bookmark not defined.
Doctoral Training Partnerships.	Error! Bookmark not defined.
Awarding credit	Error! Bookmark not defined.

Trosolwg sefydliadol

O 1 Awst 2024, mae'r ddogfen hon yn amlinellu gweithdrefn y Brifysgol ar gyfer cymeradwyo rhaglenni, modiwlau a gweithgareddau eraill sy'n dwyn credydau.

Mae'r weithdrefn wedi'u hamlinellu yn erbyn gofynion disgwyliadau Côt Ansawdd y DU (arferion craidd a chyffredin) ochr yn ochr â'r cyngor ac arweiniad ategol ar gyfer [Dylunio a Datblygu Cyrsiau](#), [Partneriaethau](#), [Monitro a Gwerthuso](#), [Asesu](#), [Galluogi Myfyrwyr i Gyflawni](#), [Arbenigedd Allanol](#), [Ymgysylltu â Myfyrwyr](#) a [Dysgu yn y Gwaith](#) fel y bo'n briodol.

Darperir trosolwg sefydliadol drwy'r [Polisi Monitro ac Adolygu](#) a gymeradwyodd y Senedd yn 2020. Bydd y weithdrefn yn cael ei hadolygu'n rheolaidd i sicrhau ei bod yn parhau i fodloni'r disgwyliadau a'r arferion a nodir yng [Nghôt Ansawdd diwygiedig y Deyrnas Unedig ar gyfer Addysg Uwch](#) a'r Safonau a'r Canllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn y Maes Addysg Uwch Ewropeaidd ([ESG](#)) 2015.

Datblygu rhaglenni a addysgir gyda phartneriaid allanol yn arwain at Ddyfarniad Prifysgol Caerdydd.

Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer sefydlu, datblygu a chynnal yr holl weithgarwch partneriaeth allanol wedi'u mynegi'n glir yn y [Polisi Partneriaeth Addysg](#) fel sy'n ofynnol gan Gôt Ansawdd y Deyrnas Unedig ar gyfer Addysg Uwch. Drwy'r polisi hwn, mae Prifysgol Caerdydd yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg o ddatblygu a rheoli ei threfniadau, a chaiff y rhain eu nodi yn Nhacsonomeg y Bartneriaeth Addysg a Addysgir.

Bydd angen i unrhyw gynigion o'r math hwn ystyried yr holl elfennau a amlinellir yn y Polisi a'r weithdrefn Partneriaethau Addysg gyda chefnogaeth ac arweiniad ar gael trwy EducationPartnerships@caerdydd.ac.uk.

Eithriadau

Gweithgaredd nad yw'n cynnwys credyd

Mae'r Brifysgol yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd nad ydynt yn dwyn credydau ac nad ydynt ychwaith yn arwain at ddyfarniad Prifysgol Caerdydd. Disgwylir y bydd monitro ac adolygu'r holl ddarpariaeth nad yw'n cynnwys credydau yn dilyn yr egwyddorion a nodir yn y Polisi hwn. Mae rhai rhaglenni nad ydynt yn cynnwys credydau wedi'u hachredu gan gyrff proffesiynol allanol ac o'r herwydd gallant hefyd fod yn ddarostyngedig i'w polisiau a'u harferion o ran sicrhau ansawdd.

Rhan Un: Cymeradwyo rhaglenni sy'n arwain at Ddyfarniad Prifysgol Caerdydd.

Mae'r adran hon wedi'i chynllunio i'ch cefnogi i ddeall y broses ar gyfer cymeradwyo rhaglenni sy'n arwain at Ddyfarniad Prifysgol Caerdydd.

Cymeradwyaeth strategol

P'un a ydych yn ailddilysu neu'n cynnig datblygu rhaglen newydd, caiff pob cynnig cychwynol ei ystyried drwy [Broses Cynllunio Integredig](#) y Brifysgol (IPP).

Trwy'r broses lefel sefydliadol hon, trafodir adolygiad cyfannol ac aildrefnu darpariaeth addysg pob ysgol (israddedig, ôl-raddedig a addysgir ac ôl-raddedig ymchwil) i sicrhau y gellir ystyried blaenoriaethau strategol addysg a recriwtio'r Sefydliad gyda'i gilydd.

Unwaith y bydd canlyniadau unrhyw drafodaethau dan y Broses Cynllunio Integredig yn hysbys, rhaid cytuno ar yr [amserlenni a'r blaenoriaethau](#) ar gyfer datblygu rhaglenni/grwpiau penodol o raglenni/disgyblaethau cyn symud ymlaen i ddatblygu eich rhaglen.

Cymorth datblygu rhaglenni sefydliadol

Gwneir trefniadau i sicrhau bod cynigion rhaglen sydd wedi'u hargymell drwy'r broses IPP yn cael eu datblygu yn unol â'r amserlen; yn cael cymorth priodol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm; yn barod i gael eu gweithredu a'u marchnata ar ôl eu cymeradwyo; yn recriwtio myfyrwyr ar gyfer y pwynt mynediad a fwriedir; yn gallu dangos aliniad â [Disgwyliadau Sefydliadol](#) pan y'i cyflwynir i'r Is-bwyllgor Cymeradwyo ac Ailddilysu Rhaglenni. Bydd y trefniadau'n cael eu cydlynu gan dimau o Lywodraethu Addysg a Chynllunio Strategol.

Disgwylir y bydd pob ysgol yn ymrwymo i'r amserlenni y cytunwyd arnynt i sicrhau y gellir bodloni blaenoriaethau strategol addysg a recriwtio'r Sefydliad.

Rhoddir diweddariadau ar gynigion rhaglen i Gadeirydd ASQC, Is-ganghellor y Coleg; a Deoniaid Addysg Colegau.

Dogfennau

Mae'r holl ddogfennau'n cyd-fynd â'r Disgwyliadau Sefydliadol i sicrhau ffordd syml i ysgolion a'r Is-Bwyllgor Rhaglenni ac Ailddilysu (PARSC) adolygu a gwerthuso rhaglen(ni) yn erbyn gofynion y llinell sylfaen. Bydd angen yr un dogfennau ar gyfer cymeradwyo ac ailddilysu rhaglenni gan gynnwys:

- Trosolwg o'r ysgol

- Templed Gwybodaeth Rhaglen (un ar gyfer pob amrywiad rhaglen)
- Disgrifiadau modiwl
- Mapio deilliannau dysgu (un ar gyfer pob amrywiad rhaglen)
- Mapio asesu (un ar gyfer pob amrywiad rhaglen)
- Cynllun llinell cyflwyno ac asesu rhaglen (un ar gyfer pob amrywiad rhaglen)
- Mapio rhinweddau graddedigion
- Meini prawf asesu/marcio ar gyfer pob math o asesiad (traethawd, cyflwyniad, gwaith grŵp ac ati).

Bydd yr holl ddogfennaeth a ddarperir gan yr ysgol yn cael ei defnyddio gan yr Is-bwyllgor i werthuso eich cynnig ac i gynorthwyo â'r broses benderfynu. Bydd unrhyw feysydd i'w hystyried/datblygu ymhellach yn cael eu cyflwyno o ran cwrdd â gofynion Disgwyliadau'r Sefydliad.

Cyflwyno'ch cynnig i'w ystyried yn PARSC.

Ar ddechrau'r broses o ddatblygu'r rhaglen, ni fydd Swyddog Ansawdd eich Coleg yn gallu cadarnhau'r union ddyddiad y bydd eich cynnig yn cael ei gyflwyno i PARSC gan y bydd hyn yn dibynnu ar y canlynol:

- yr amserlenni a'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt fel rhan o'r Broses Cynllunio Integredig.
- cyflwyno dogfennau'n llwyddiannus i Ddeon Addysg y Coleg a Chadeirydd yr Is-bwyllgor Cymeradwyo ac Ail-ddilysu Rhaglen i gael adolygiad hanner ffordd i asesu cynnydd, sicrhau bod cymorth addas yn cael ei ddarparu, nodi unrhyw faterion.
- cadarnhau amserlen briodol a realistig i'w chyflwyno i'r Is-bwyllgor ar sail adborth a dadansoddiad yr adolygiad hanner ffordd.
- Cyflwyno dogfennau terfynol 4 wythnos cyn cyfarfod yr is-bwyllgor y cytunwyd arno i'w hadolygu gan Swyddog Ansawdd y Coleg a'u cyflwyno i aelodau PARSC.

Trafod eich cynnig yn PARSC

Bydd aelodau'r is-bwyllgor yn adolygu ac yn trafod yr holl ddogfennau a ddarperir gan yr ysgol fel modd o 'werthuso' sut mae eich cynnig yn bodloni (neu'n rhagori ar) y disgwyliadau sefydliadol.

Mae'n bwysig y ceir cynrychiolaeth briodol o staff academiaidd a phroffesiynol yr ysgol (gan gynnwys y staff academiaidd a phroffesiynol arweiniol) er mwyn rhoi cyfle i chi roi darlun clir o'ch gweledigaeth gyfer y rhaglen/rhaglenni wrth symud ymlaen.

Gallai aelodau'r is-bwyllgor eich gwahodd i ateb cwestiynau ar amrywiol feysydd i sicrhau eu bod yn deall eich cynnig yn iawn ynghyd â'r deilliannau rydych yn disgwyl eu cael. Dylid ystyried hon yn broses gefnogol sy'n cydnabod, yn deall ac yn

gwerthfawrogi gwaith yr ysgolion wrth gyflwyno'r cynnig a hefyd sy'n sicrhau bod y rhaglen yn bodloni holl ofynion disgwyliaid, rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau'r Sefydliad.

Canlyniadau PARSC

Ar ôl i'ch cynnig gael ei ystyried gan PARSC, argymhellir un o'r canlyniadau canlynol:

1. *dylai'r cynnig gael ei gymeradwyo, gydag argymhellion neu hebddynt.*

Anfonir cynnig at Gadeirydd ASQC yn argymhell ei gymeradwyo ar unwaith (trwy gamau gweithredu gan Swyddog Ansawdd y Coleg).

Lle mae argymhellion wedi'u gwneud, nid yw'r rhain yn orfodol ond mae'n ofynnol i'r Ysgol eu trafod yn y Bwrdd Astudiaethau a myfyrio ar sut y gellir eu gweithredu yn ddiweddarach neu drwy [aiddilysu](#).

2. *dylai'r cynnig gael ei gymeradwyo yn amodol ar fodloni amodau penodol o fewn cyfnod penodol, gyda neu heb argymhellion ychwanegol.*

Pan fydd amodau wedi'u pennu, mae'r rhain yn orfodol, a rhoddir uchafswm o 6 wythnos i'r ysgol eu bodloni. Ni ellir cymeradwyo cynigion oni bai bod yr holl amodau wedi'u bodloni'n foddhaol.

Lle mae argymhellion wedi'u gwneud, nid yw'r rhain yn orfodol ond mae'n ofynnol i'r Ysgol eu trafod yn y Bwrdd Astudiaethau a myfyrio ar sut y gellir eu gweithredu yn ddiweddarach neu drwy [aiddilysu](#).

3. *dylai'r cynnig gael ei gyfeirio'n ôl i'r ysgol i roi ystyriaeth bellach iddo cyn cael ei ailgyflwyno i gyfarfod diweddarach PARSC.*

Os yw'r cynnig wedi'i gyfeirio at yr Ysgol, **byddant yn ailgyflwyno'r ddogfennaeth wedi'i diweddarau i PARSC gyda'r un aelodau â'r cyflwyniad gwreiddiol** (lle bo'n bosibl). Nod hyn yw sicrhau cysondeb a thryloywder wrth wneud penderfyniadau. Yn dibynnu ar natur y cynnig, gellir gwneud hyn trwy gylchrediad, neu efallai y bydd yn ofynnol i'r ysgol ddychwelyd yr ailgyflwyno'n llawn i gyfarfod. Bydd hyn yn cael ei gadarnhau gan Swyddog Ansawdd eich Coleg pan fyddwch yn cael gwybod am y canlyniad.

Cymeradwyaeth y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd

Ar gyfer cynigion a argymhellir i'w cymeradwyo, neu unwaith y bydd Cadeirydd PARSC wedi cadarnhau bod yr holl amodau wedi'u bodloni, cyflwynir argymhelliad i'r Dirprwy Is-Ganghellor, Addysg a Phrofiad Myfyrwyr i'w gymeradwyo ar ran ASQC. Gwneir hyn drwy gam gweithredu gan Swyddog Ansawdd y Coleg.

Mae ein rhwymedigaethau o dan y Gyfraith Defnyddwyr yn ein hatal rhag hysbysebu unrhyw raglen(ni) hyd nes y rhoddir cymeradwyaeth ffurfiol gan yr ASQC er mwyn sicrhau cywirdeb y wybodaeth sydd ar gael i fyfyrwyr ac ymgeiswyr.

Rhan Dau: Gwneud newidiadau arferol i raglenni presennol

Cadarnhau Gwybodaeth am y Rhaglen

Mae'r ASQC yn cytuno ar broses a dyddiad safonol bob blwyddyn i Ysgolion gadarnhau'r holl wybodaeth am y rhaglen. Cynlluniwyd y broses hon yn unol â chyfrifoldebau'r Brifysgol o dan gyfraith diogelu defnyddwyr i leihau nifer y newidiadau hwyr.

Ystyrir bod unrhyw wybodaeth am raglen a ddarperir i fyfyrwyr ac ymgeiswyr (Canfod Cwrs, Diwrnodau Agored, llawlyfrau ac ati) yn 'wybodaeth berthnasol' sy'n debygol o gael ei defnyddio i wneud dewisiadau gwybodus (p'un ai i wneud cais, pa fodiwlau i'w hastudio, sut y cânt eu hasesu) ac yn ffurfio rhan o gytundeb y Brifysgol gyda'i myfyrwyr.

Mae gan y [Bwrdd Astudiaethau](#) rôl allweddol o ran adolygu a chadarnhau holl wybodaeth y rhaglen yn rhan o'i gylch busnes rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod agwedd ragweithiol ac amserol i drafod newidiadau ynghylch portffolios tra'n ystyried unrhyw gyngor ac arweiniad a ddarperir gan bwyllgorau/grwpiau ehangach yr Ysgol, y Coleg a'r Brifysgol.

Cymeradwyo newidiadau arferol trwy eich Bwrdd Astudiaethau

Dim ond o fewn paramedrau penodol a amlinellir yn y [trothwyon newid](#) y gall eich Bwrdd Astudiaethau wneud newidiadau. Ni all y Bwrdd gymeradwyo unrhyw newidiadau i fodiwlau craidd/gofynnol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y CDY (ac eithrio newidiadau i asesu). Ystyrir bod y newidiadau hyn yn sylfaenol i strwythur a chyfanrwydd y rhaglen a theitl y Dyfarniad felly, bydd angen i chi drafod y newidiadau hyn gyda Deon Addysg eich Coleg.

Dim ond er mwyn gwneud addasiadau i'r rhaglen y dylid gwneud newidiadau ac nid rhaglen wahanol. Os oes angen newidiadau ehangach ee gwneud newidiadau strwythurol mawr i raglenni gradd, disgrifiadau rhaglen neu ddeilliannau dysgu rhaglenni, ni all y Bwrdd Astudiaethau ystyried na chymeradwyo'r cynnig.

Rhaid adolygu unrhyw newidiadau sy'n ymwneud â phartneriaethau addysg allanol yn unol â'r gofynion a amlinellir yn y Polisi Partneriaeth Addysg i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol a chytundebol.

Newidiadau dros y trothwy.

Efallai y bydd achosion lle bydd y newidiadau yr ydych am eu gwneud yn mynd dros y trothwy newid mewn ymateb i ofynion allanol neu gynlluniau gweithredu ysgol. Lle bo'n bosibl, byddwn yn ceisio cefnogi'r newidiadau hyn i ysgolion osgoi mynd drwy'r broses cymeradwyo rhaglen lawn a amlinellir yn [Rhan Un](#).

O dan yr amgylchiadau hyn, bydd angen i chi drafod y rhesymeg gyda Deon Addysg eich Coleg a fydd yn gwerthuso'r cynnig a'r effaith y gallai ei gael ar fyfyrwyr/ymgeiswyr presennol, fodd bynnag, bydd rhai newidiadau na ellir eu hwyluso drwy'r broses hon gan y gallent gael effaith ehangach.

Ychwanegu Blwyddyn Astudio Dramor at raglen sy'n bodoli eisoes

Gallwch ond ychwanegu 120 credyd ychwanegol 'gyda Blwyddyn Astudio Dramor' at raglen sy'n bodoli eisoes (graddau Anrhydedd Sengl neu gydanheddedd) drwy'r weithdrefn hon os oes gennych wybodaeth rhaglen gyfredol (cymeradwywyd o fewn 3 blynedd) a bod Cymeradwyaeth Strategol wedi'i dderbyn drwy'r broses IPP. Bydd angen i raglenni nad oes ganddynt hyn fynd drwy'r weithdrefn a amlinellir yn [Rhan Un](#).

Adolygiad Bwrdd Astudiaethau

- Yr ysgol i gwblhau Templed Gwybodaeth Rhaglen (PIT) wedi'i lenwi ymlaen llaw, gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr amrywiad rhaglen safonol, cyfoes.
- Diweddarau adrannau perthnasol i adlewyrchu cynnwys arfaethedig y Flwyddyn Astudio Dramor e.e., gan gynnwys o leiaf un Deiliant Dysgu Rhaglen ychwanegol i adlewyrchu'r Flwyddyn Astudio Dramor.
- Ychwanegu'r modiwl a ddatblygwyd yn ganolog i'r rhaglen (Bydd gan bob ysgol eu cod modiwl eu hunain, ond ni ellir newid y cynnwys)
- Yr ysgol i ystyried y wybodaeth yn y Bwrdd Astudiaethau priodol ac argymhell i Ddeon Addysg y Coleg ei chymeradwyo.
- Bwrdd Astudiaethau i gadarnhau sut y byddant yn gweithredu ac yn rheoli'r rhaglen astudio dramor yn unol â'r [Weithdrefn Partneriaethau Addysg](#).

Cymeradwyaeth Deon Addysg y Coleg

- Ysgol yn cyflwyno dogfennaeth wedi'i diweddarau i'w Deon Addysg Coleg perthnasol ar gyfer ystyriaeth a chymeradwyaeth derfynol.
- Bydd Deon y Coleg yn cysylltu â'r Tîm Ansawdd a Safonau Academaidd i adolygu Templed Gwybodaeth y Rhaglen.
- Deon Addysg y Coleg i gadarnhau eu penderfyniad ar gymeradwyo'r amrywiad rhaglen 'gyda Blwyddyn Astudio Dramor' gyda'r ysgol (cynnwys Ansawdd Academaidd).

Trefnu Rhaglen

- Mae ysgolion yn cyflwyno eu templed gwybodaeth rhaglen (yn Gymraeg a Saesneg) i Ansawdd Academaidd erbyn y [dyddiad cau ar gyfer cadarnhau gwybodaeth am y rhaglen](#)

- Bydd y ddogfennaeth yn cael ei rhannu gyda'r Tîm Gwybodaeth am Raglenni a Ffurflenni Statudol i sefydlu'r rhaglen ar SIMS.
- Bydd cod rhaglen newydd yn cael ei sefydlu i greu fersiwn 4 blynedd o'r rhaglen Astudio Dramor.

Gofyn am newid teitl rhaglen

Mae goblygiadau sylweddol, ac angenrheidiol, o ran adnoddau ar gyfer newid teitl rhaglen, a dim ond os oes hyder mewn gwelliant sylweddol o ran recriwtio myfyrwyr ac adenillion o fuddsoddiad y dylid ei wneud. Wrth gynnig newid teitl rhaglen, bydd angen i chi gyflwyno'ch cais i Ddeon Addysg y Coleg priodol, gan ddarparu sail resymegol a chynnwys crynodeb o gynllunio nifer y myfyrwyr - niferoedd hanesyddol a rhagamcanol.

Bydd eich Coleg yn adolygu'r wybodaeth a'r dystiolaeth ategol ac yn ei hargymell/peidio â'i hargymell ar gyfer Cymeradwyaeth Strategol drwy'r broses IPP yn seiliedig ar:

- amseriad y cais
- bod y rhaglen bresennol yn gyfredol h.y wedi'i chymeradwyo o fewn y 3 blynedd diwethaf.
- yr effaith bosibl +/- ar recriwtio myfyrwyr
- ystyriaeth ariannol ac enw da o oblygiadau fisa i fyfyrwyr a allai fod wedi gwneud cais a derbyn eu cynnig yn barod
- argaeledd adnoddau ysgol a chanolog i gefnogi newid enw rhaglen e.e, gan fod teitl rhaglen yn rhan o 'allwedd gynradd' y rhaglen, mae newid i deitl y rhaglen yn gofyn am adeiladu strwythur rhaglen newydd yn SIMS. Rhaid cadw strwythur a theitl y rhaglen bresennol bob amser yn SIMS ar gyfer unrhyw fyfyrwyr sy'n aros ar y rhaglen ac ar gyfer Cofnodion Myfyrwyr hanesyddol.

Os caiff ei gymeradwyo, rhaid datblygu cynllun cyfathrebu a marchnata penodol i rybuddio ymgeiswyr i newid enw gyda chyswllt penodol i ateb cwestiynau neu gwynion. Os na gaiff ei gymeradwyo, bydd angen i'r rhaglen ymgymryd â'r broses cymeradwyo rhaglen lawn a amlinellir yn [Rhan Un](#).

Sicrhau ansawdd

Unwaith y rhoddir cymeradwyaeth strategol, bydd angen i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol i'w hadolygu:

- Trosolwg cryno o'r newidiadau a wnaed.
- Templed Gwybodaeth Rhaglen wedi'i ddiweddarau (Cymraeg a Saesneg) gyda'r newid enw wedi'i nodi'n glir
- Disgrifiadau modiwl
- Mapio Deilliannau Dysgu

Bydd Swyddog Ansawdd y Coleg yn adolygu'r ddogfennaeth ac yn dibynnu ar natur a maint y newidiadau a gyflwynir, bydd yn penderfynu a oes angen i'r cynnig fynd i gyfarfod llawn o PARSC, neu a ellir ei adolygu trwy weithred y Cadeirydd, yn unig.

Bydd cynigion yn cael eu hadolygu fesul achos yn unig.

Rhan Tri: Modiwlau a darpariaethau eraill sy'n dwyn credydau.

Rhaid i bob Rhaglen neu ran o raglenni (modiwlau) a gynigir gan yr ysgol ddod o dan arolygiaeth [Bwrdd Astudiaethau](#). Byddant yn adrodd i Bwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr yr Ysgol ar adolygu, monitro a chyflwyno rhaglenni.

Wrth greu modiwl newydd fel rhan o raglen neu i'w gyflwyno'n annibynnol, cyfrifoldeb y Bwrdd Astudiaethau yw sicrhau bod y modiwl yn cael ei adolygu yn unol â chanllawiau'r Bwrdd Astudiaethau yn benodol yr adran '[Beth ddylai Bwrdd Astudiaethau ei ystyried wrth adolygu gwybodaeth am fodiwlau](#))?'

Wrth adolygu'r disgrifiad modiwl, rhaid i'r Bwrdd sicrhau ei fod yn bodloni'r gofynion sylfaenol a amlinellir yn y [disgwyliadau sefydliadol](#) gan mai dyma'r egwyddorion allweddol y mae holl raglenni Caerdydd yn seiliedig arnynt.

'Rhaglenni' nad ydynt yn raglenni gradd

Rhaid i bob myfyriwr sy'n astudio ar gyfer credyd fod wedi'i gofrestru ar god rhaglen hyd yn oed os mai dim ond un modiwl y maent yn ei astudio. Ni ellir cofrestru myfyrwyr ar fodiwlau unigol yn uniongyrchol a rhaid eu cysylltu â chod rhaglen nad yw'n raglen radd priodol sy'n adlewyrchu'n gywir y modd y maent yn mynychu a'r hyd. Mae codau rhaglenni nad ydynt yn raglenni gradd yn wahanol i godau rhaglen israddedig ac ôl-raddedig safonol gan nad ydynt yn arwain at Ddyfarniad Prifysgol Caerdydd. Bydd myfyrwyr yn derbyn trawsgrifiad o gredydau ar ôl llwyddo yn yr asesiad.

Gwneud cais i astudio modiwlau sy'n dwyn credydau

Rhaid i unrhyw un sy'n gwneud cais i astudio neu ymweld â'r Brifysgol drwy'r broses ymgeisio SIMS gadw at y [polisiâu derbyn](#) priodol gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- [Gofynion Saesneg](#)
- [Gofynion fisa a mewnfudo](#)
- [Cynllun Cymeradwyaeth Technoleg Academaidd](#) (ATAS)
- [Cofrestru ar-lein](#) a chytundeb â [datganiad diogelu data](#)'r Brifysgol .

Gofyn am god rhaglen nad yw'n raglen radd

Mae cyfres o godau rhaglen nad ydynt yn raglenni gradd eisoes wedi'u sefydlu ym mhob ysgol. Mae'n bwysig eich bod yn gwirio a yw codau presennol yn addas i'w defnyddio cyn gofyn am sefydlu rhai newydd. Bydd eich Rheolwr Gwybodaeth Rhaglen Coleg yn gallu eich cefnogi gyda'r broses hon.

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid gofyn am godau rhaglenni nad ydynt yn raglenni gradd newydd er mwyn osgoi oedi diangen. Lle mae angen creu codau rhaglenni nad ydynt yn raglenni gradd y tu allan i [gylch cadarnhau gwybodaeth y rhaglen](#) e.e., mewn ymateb i dendrau contract modiwl annibynnol neu bartneriaid diwydiannol, rhaid i Gofrestrydd eich Coleg ddarparu tystiolaeth o gymeradwyaeth strategol i gefnogi'r cais sy'n cael ei wneud y tu allan i'r cylch busnes presennol.

Categoriâu o ddarpariaethau 'nad ydynt yn raglenni gradd'.

Astudiaethau ymweliadol ac achlysurol

- Gall unigolion fod yn [gysylltiedig ag UG, PGT, neu PGR](#).
- Ni fyddant yn derbyn addysg, astudio modiwlau, nac yn cyflwyno asesiadau.
- Rhaid i unigolion fod wedi'u cofrestru ar [god rhaglen nad yw'n raglen gradd](#) yn SIMS i'w galluogi i gael mynediad i adeiladau, offer neu labordai at ddibenion cysgodi staff ac ati.
- Ni ddylai unigolion gael eu cofrestru fel astudiaethau ymweliadol neu achlysurol os ydynt yn fyfyrwyr sydd wedi'u cofrestru gyda darparwr arall e.e. cyfnewid, neu AHRC SWW.
- Fel arfer, hyd y cofrestriad ar gyfer ymweliadau neu astudiaethau achlysurol hiraf yw blwyddyn o hyd, yn dibynnu ar natur y gweithgaredd.
- Bydd cofnod unigolion yn SIMS yn cael ei gau'n awtomatig ar ôl y dyddiad gorffen +2 wythnos.

Modiwlau annibynnol a thendrau tymor byr a ariennir yn allanol

- Nid yw myfyrwyr yn derbyn Gwobr Prifysgol Caerdydd.
- Gellir defnyddio credydau a gyflawnwyd yn llwyddiannus i gael mynediad i raglenni (yng Nghaerdydd neu mewn sefydliad arall) trwy'r Polisi Cydnabod Dysgu Blaenorol.
- Gall myfyrwyr dalu eu ffioedd dysgu eu hunain yn uniongyrchol, neu gallant gael eu hariannu gan gyflogwyr, neu gorff gweithlu strategol e.e, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).
- Rhaid i fyfyrwyr fod wedi'u cofrestru ar [god rhaglen nad yw'n rhaglen radd](#) yn SIMS sy'n dangos yn glir yr holl fodiwlau sydd ar gael, pryd y maent ar gael a'r dull o fynychu.
- Rhaid i fodiwlau fod werth o leiaf 1 credyd.
- Dylid rheoli casgliadau o fodiwlau gan ddefnyddio casgliadau cynnwys i gefnogi myfyrwyr gyda dewis modiwlau e.e, gallai cod rhaglen ymbarél nad yw'n rhaglen radd penodol AaGIC Meddygaeth gynnwys sawl casgliad o gynnwys er mwyn hwyluso dewis o fewn pwnc penodol.
- Rhaid i fyfyrwyr gofrestru'n flynyddol os yw cyrsiau'n fwy na blwyddyn.

Sefydlu eich rhaglen nad yw'n raglen gradd ar gyfer sawl dyddiad dechrau

Gall myfyrwyr gofrestru ar fodiwlau ar sawl adeg yn ystod y flwyddyn academaidd gan ganiatáu iddynt astudio sawl modiwl sydd ynghlwm wrth yr un cod rhaglen nad yw'n radd am gyfnodau amrywiol o amser.

Bydd angen creu dyddiadau pwrpasol ar gyfer pob myfyriwr i'w galluogi i gofrestru ar fodiwlau gwahanol am gyfnodau gwahanol o amser neu ar gyfer gwahanol bwyntiau mynediad. Gall eich Rheolwr Gwybodaeth Rhaglen Coleg roi cymorth, cyngor ac arweiniad os oes angen nifer o ddyddiadau cychwyn arnoch.

Modiwlau Annibynnol Traws-Brifysgol

Gellir cyflawni datblygu modiwlau annibynnol traws-Brifysgol ar lefel 7 trwy ychwanegu'r holl fodiwlau at y rhaglen ysgol o fewn y cod rhaglen nad yw'n raglen radd penodol yn yr un modd ag y rhennir [casgliadau cyfnewid](#) .

Mae'n ofynnol i Ysgolion adolygu eu modiwlau annibynnol traws-Brifysgol yn flynyddol yn unol â'r [broses o gadarnhau gwybodaeth am y rhaglen](#), gan gadarnhau pa fodiwlau fydd ar gael ar gyfer y flwyddyn academaidd i ddod.

Astudio dramor a myfyrwyr cyfnewid rhyngwladol sy'n dod i mewn

Disgwylir i ysgolion sicrhau bod gwybodaeth am y modiwlau sydd ar gael yn gywir ac yn gyfredol, gydag ystod briodol o fodiwlau yn cael eu cynnig i fyfyrwyr sy'n dod i mewn. Yn unol â'r [broses cadarnhau gwybodaeth rhaglen](#), mae'n ofynnol i Ysgolion adolygu eu rhaglen astudio dramor nad yw'n radd a gwybodaeth modiwlau yn flynyddol a chadarnhau pa fodiwlau fydd ar gael ar gyfer y flwyddyn academaidd i ddod.

- Rhaid i fyfyrwyr sy'n dod i mewn fod wedi'u cofrestru gyda darparwr partner.
- Nid yw myfyrwyr yn derbyn Gwobr Prifysgol Caerdydd.
- Rhaid i fyfyrwyr fynychu addysgu wyneb yn wyneb yng Nghaerdydd.
- Bydd myfyrwyr yn astudio ystod o fodiwlau sy'n dwyn credydau yn unol â gofynion eu sefydliad cartref.
- Bydd credydau a enillir yn llwyddiannus yn cael eu cofnodi ar eu trawsgrifiad o greddyddau a'u hanfon i'w sefydliad cartref ar ôl y bwrdd arholi.
- Lle mae myfyrwyr sy'n dod i mewn yn astudio rhaglenni nad ydynt yn raglenni â modiwlau e.e., yn yr Ysgol Meddygaeth, mae angen codau rhaglenni nad ydynt yn raglenni gradd ar wahân ar gyfer darpariaeth â modiwlau a heb fodiwlau.
- Rhaid i fodiwlau fod werth o leiaf 1 credyd.
- Dylid rheoli casgliadau o fodiwlau gan ddefnyddio casgliadau cynnwys i gefnogi myfyrwyr gyda dewis modiwlau e.e., gallai cod rhaglen ymbarél di-radd cyfnewid ENCAP gynnwys sawl casgliadau o gynnwys er mwyn hwyluso dewis o fewn pwnc neu ddisgyblaeth benodol os cynigir modiwlau y tu allan i un ysgol.

- Rhaid neilltuo costau i fodiwlau i sicrhau y gellir cynhyrchu anfonebau myfyrwyr ar lefel fodiwlaidd, yn hytrach na defnyddio ffioedd pro-rata

Cronni credydau ôl-raddedig a addysgir

Mae cronni credydau ar Lefel 7 FHEQ yn rhoi cyfle i fyfyrwyr astudio modiwlau sydd â gwerth ar eu pen eu hunain yn ogystal â chyfrannu at becyn dysgu mwy. Gall dysgwyr gronni modiwlau mewn ffordd sy'n caniatáu iddynt gyd-fynd â'i gilydd, adeiladu, neu bentyrru credydau wrth iddynt weithio tuag at eu canlyniadau bwriadedig boed hynny drwy gwblhau modiwl unigol neu ddyfarniad y [Brifysgol yn y pen draw](#).

Mae sefydlu eich cod rhaglen nad yw'n raglen gradd ar gyfer cronni credydau ôl-raddedig yn dilyn yr un drefn a nodir ar gyfer [modiwlau annibynnol](#).

- Nid yw myfyrwyr yn derbyn Gwobr Prifysgol Caerdydd.
- Gellir defnyddio credydau a gyflawnwyd yn llwyddiannus i gael mynediad i raglenni Dyfarniad Dysgu Hyblyg penodol yng Nghaerdydd trwy'r [Polisi Cydnabod Dysgu Blaenorol](#).
- Gall myfyrwyr dalu eu ffioedd dysgu eu hunain yn uniongyrchol, neu gallant gael eu hariannu gan gyflogwyr, neu gorff gweithlu strategol e.e, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).
- Rhaid i fyfyrwyr fod wedi'u cofrestru ar [god rhaglen gronni credydau penodol nad yw'n radd](#) yn SIMS sy'n dangos yn glir yr holl fodiwlau sydd ar gael, pryd y maent ar gael a'r dull o fynychu.
- Rhaid i fodiwlau fod werth o leiaf 1 credyd.
- Dylid rheoli casgliadau o fodiwlau gan ddefnyddio [casgliadau cynnwys](#) i gefnogi myfyrwyr gyda dewis modiwlau e.e., gallai cod rhaglen gronni credyd ymbarél HCARE HEIW gynnwys sawl casgliad o gynnwys i ganiatáu dewis rhwydd o fewn pwnc penodol.
- Rhaid i fyfyrwyr gofrestru'n flynyddol os yw'r rhaglen nad yw'n raglen gradd yn fwy na blwyddyn.
- Mae myfyrwyr yn ailadrodd a gallant gymryd rhwng 0-60 credyd bob blwyddyn.
- Rhaid neilltuo costau i fodiwlau i sicrhau y gellir cynhyrchu anfonebau myfyrwyr ar lefel fodiwlaidd, yn hytrach na defnyddio ffioedd pro-rata.
- Gall myfyrwyr dderbyn Diploma Ôl-raddedig generig mewn Addysg Uwch neu Dystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg Uwch trwy god rhaglen gronni credydau nad yw'n raglen gradd os ydynt wedi cronni'r swm cywir o greddyau pan fyddant yn gadael.

Ennill Dyfarniad Prifysgol Caerdydd trwy gronni credydau.

Wrth ddatblygu unrhyw raglen sy'n cefnogi cronni credydau, bydd angen ei chymeradwyo'n llawn fel yr amlinellir yn [Rhan Un](#). Rhaid i Ysgolion nodi mai uchafswm hyd y rhaglen ar gyfer cyflawni Dyfarniad Prifysgol Caerdydd trwy gronni credydau yw 7 mlynedd o ddechrau'r modiwl cyntaf fel yr amlinellir yn y Rheoliadau Academaidd.

Ar ôl cwblhau cyfres o fodiwlau, efallai y bydd myfyrwyr yn cael y cyfle i ddefnyddio'u credydau y gellir eu 'pentyrru' i [drosglwyddo](#) rhaglen gymeradwy yn fewnol lle gallant ennill Dyfarniad Prifysgol Caerdydd. Mae tri Dyfarniad Prifysgol Caerdydd wedi'u cymeradwyo i gefnogi myfyrwyr sy'n astudio trwy gronni credydau.

Defnyddio teitl rhaglen sy'n bodoli eisoes

Rhaid i'r rhaglen fod â'r un strwythur, deilliannau dysgu lefel rhaglen, a chynnwys i ddiogelu uniondeb teitl y Dyfarniad a'r Rhaglen bresennol.

- **MSc** [teitl rhaglen sydd eisoes ag enw arni] = 120 credyd a addysgir ynghyd â thraethawd hir/prosiect 60 credyd ar Lefel 7
- **Diploma Ôl-raddedig** [teitl rhaglen sydd eisoes ag enw arni] = 120 credyd a addysgir ar Lefel 7
- **Tystysgrif Ôl-raddedig** [teitl rhaglen sydd eisoes ag enw arni] = 60 credyd a addysgir ar Lefel 7

Teitl rhaglen generig gyda chydabyddiaeth datblygiad proffesiynol ffurfiol

Bydd y rhain yn gasgliad wedi'i ddiffinio ymlaen llaw o fodiwlau â thema sydd wedi'u hatodi i god rhaglen nad yw'n radd sydd â chydabyddiaeth CPD gan CPSRh ond nad ydynt yn mapio i deitl rhaglen sydd eisoes ag enw. Dylid rheoli casgliadau o fodiwlau gan ddefnyddio casgliadau cynnwys i gefnogi myfyrwyr gyda dewis modiwlau i sicrhau eu bod yn bodloni unrhyw ofynion datblygiad proffesiynol disgyblaeth-benodol.

Bydd trawsgrifiad y myfyriwr yn dangos y themâu a ddewiswyd gan y modiwlau a ddewiswyd.

- **MSc** [xxxxxx] *Datblygiad Proffesiynol*: 120 o credydau a addysgir ynghyd â thraethawd hir/prosiect 60 credyd ar Lefel 7
- **Diploma Ôl-raddedig** [xxxxxx] *Datblygiad Proffesiynol*: 120 credyd a addysgir ar Lefel 7
- **Tystysgrif Ôl-raddedig** [xxxxxx] *Datblygiad Proffesiynol*: 60 credyd a addysgir ar Lefel 7

Rhaglen generig yn cynnwys casgliad o fodiwlau o bob rhan o'r Brifysgol. * 1

Ar ôl cwblhau cyfres o fodiwlau, gall dysgwyr ddewis defnyddio eu credyd y gellir ei bentyrru i gefnogi dyfarniad generig*. Yn dibynnu ar y modiwlau a ddewisir, gall

¹Rhagwelir mai dim ond ar gyfer nifer fach o ddysgwyr y bydd hwn yn cael ei ddefnyddio. Bydd gweithredu rhaglen generig ar draws llawer o ddisgyblaethau yn gymhleth i'r dysgwr ei llywio a gallai ddarparu profiad amrywiol i'r dysgwr.

confensiwn enwi rhaglen generig fod yn seiliedig ar y ddisgyblaeth pwnc eang a astudir gan bob dysgwr e.e. tystysgrif ôl-raddedig yn y gwyddorau cymdeithasol/gwyddorau gofal iechyd ac ati.

Bydd angen bod yn ofalus gydag unrhyw deitlau Dyfarniad gwarchoddedig sy'n rhoi cofrestrriad proffesiynol.

- **MSc** [disgyblaeth pwnc eang]: 120 o gredydau a addysgir ynghyd â thraethawd hir/prosiect 60 credyd ar Lefel 7
- **Diploma Ôl-raddedig** [disgyblaeth pwnc eang]: 120 credyd a addysgir ar Lefel 7
- **Tystysgrif Ôl-raddedig** [disgyblaeth pwnc eang] : 60 credyd a addysgir ar Lefel 7

Rhaglenni Darpariaeth Saesneg

Yn cael eu rhedeg gan y tîm ELP - mae'r rhaglenni hyn yn rai heb fodiwlau, ac fel arfer yn rhedeg am wythnosau nid blynyddoedd i hwyluso sgiliau Saesneg myfyrwyr rhyngwladol cyn astudio.

Unwaith y bydd dyddiad gorffen rhaglen myfyriwr cofrestredig +2 wythnos wedi mynd heibio, bydd cofnod y myfyriwr yn cael ei gau'n awtomatig.

Partneriaethau Hyfforddiant Doethurol.

Mae Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol yn gonsortiw m o sefydliadau partner sy'n cynnig cyfleoedd ymchwil i staff a myfyrwyr.

- Nid yw myfyrwyr yn derbyn dyfarniad na chredydau.
- Bydd angen cytundeb cyd-oruchwylio wedi'i lofnodi ar bob myfyriwr cyn cofrestru.
- Rhaid i'r myfyriwr fod wedi'i gofrestru gyda'r darparwr amgen
- Gall hyd y rhaglen nad yw'n raglen gradd fod yn 3-7 mlynedd.
- Disgwylir i fyfyrwyr gofrestru'n flynyddol o hyd.
- Nid yw'r rhaglenni hyn yn rhai y gellir eu dychwelyd gan HESA, ac nid ydynt yn fodiwlaidd felly os oes angen mynediad at ddeunyddiau addysgu ar fyfyrwyr bydd angen i ysgolion eu cofrestru ar Dysgu Canolog.
- Nid oes angen cymeradwyaeth ar gyfer y rhaglenni hyn nad ydynt yn rhai gradd.
- Unwaith y bydd dyddiad gorffen rhaglen myfyriwr cofrestredig +2 wythnos wedi mynd heibio, bydd cofnod y myfyriwr yn cael ei gau'n awtomatig.

Dyfarnu credydau

I ddyfarnu credydau, mae'n rhaid i chi gael Bwrdd Arholi. Wrth sefydlu eich rhaglen nad yw'n raglen gradd rhaid i chi ystyried y canlynol:

- Lle mae ysgolion yn defnyddio'r un cod modiwl o fewn y rhaglen nad yw'n radd a rhaglen sy'n dwyn dyfarniad, rhaid i chi ystyried pob modiwl yn yr un bwrdd arholi.
- Rhaid i reolau ailsefyll fod yn eu lle ar gyfer pob rhaglen nad yw'n radd.

- Rhaid i bob myfyriwr (rhaglen nad yw'n radd a dyfarniad) ailsefyll o fewn y cyfnod ailsefyll y cytunwyd arno gan y Brifysgol.
- Os bydd ysgolion yn sefydlu codau modiwl annibynnol, rhaid amlinellu amserlen y byrddau arholi yn glir ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd gan nodi pryd y bydd ailsefyll ar gael i fyfyrwyr (cynllun llinell).
- Rhaid cadw byrddau arholi yn unol ag amserlen gymeradwy'r bwrdd arholi er mwyn sicrhau y gellir cau cofnod myfyriwr ar yr adeg briodol.
- Rhaid i fyfyrwyr gofrestru'n flynyddol os yw cyrsiau'n fwy na blwyddyn.

Mae cyngor ac arweiniad pellach ar yr holl ddarpariaeth credyd ar gyfer rhaglenni nad ydynt yn raglenni gradd ar gael trwy eich Swyddog Gwybodaeth Rhaglen.